Fframwaith Dyfarnu Amgen Cymwysterau Cyffredinol ar gyfer Cymru: Canllawiau

MEHEFIN 2021

Fersiwn

Cyhoeddwyd y ddogfen hon gyntaf ar 22 Mehefin 2021.

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud ag Amodau GQAAFW4 (Cam 1 - Adolygiad Canolfan o Radd a Bennir gan Ganolfan) a GQAAFW5 (Cam 2 - Apêl i CBAC), yn ogystal â'n Gofynion mewn perthynas â phennu canlyniadau at ddibenion Amod GQAAFW 3.3(a)(i).

Gellir gweld ein Fframwaith Dyfarnu Amgen Cymwysterau Cyffredinol ar gyfer Cymru (GQAAFW) yma.

Cynnwys

Cefndir 4

Canllawiau Cymwysterau Cymru 5

Hawl y Dysgwr i adolygiad ac apêl 6

Sail dros Adolygiad Canolfan (Cam 1) 7

Sail ar gyfer Apêl (Cam 2) 8

Dyfarniad Academaidd Afresymol (Cam 2) 9

Cywiro Canlyniadau 11

Atodiad 1 - Canllawiau ar Wneud Newidiadau i Ganlyniadau Anghywir 13

Beth ddylai CBAC ei wneud pan fydd yn darganfod ei fod wedi cyhoeddi canlyniad anghywir? 13

Beth ddylai CBAC ei ystyried wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd? 14

Beth ddylai CBAC ei wneud ar ôl penderfynu pa gamau i'w cymryd? 16

Cefndir

Ar 22 Mehefin 2021, gwnaethom gyhoeddi Fframwaith Dyfarnu Amgen Cymwysterau Cyffredinol ar gyfer Cymru (GQAAFW). Mae'r GQAAFW yn cynnwys nifer gymharol fach o Amodau allweddol sy'n gosod y fframwaith lefel uchel ar gyfer dyfarnu Cymwysterau Cyffredinol (GQ) yr haf hwn.

Y Cymwysterau Cyffredinol dan sylw y mae'r GQAAFW yn berthnasol iddynt yw:

- Cymwysterau TGAU Cymeradwy;
- Cymwysterau TAG Uwch Gyfrannol (UG) Cymeradwy;
- Cymwysterau TAG Safon Uwch Cymeradwy;
- Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru (THS), a
- Cymwysterau TGAU, TAG UG a TAG Safon Uwch etifeddol sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru yn unig.

Daeth y GQAAFW i rym ar 22 Mehefin 2021 ar gyfer yr holl Gymwysterau Cyffredinol yr effeithiwyd arnynt.

O ran yr holl Gymwysterau Cyffredinol y mae'r Amodau a nodir yn y ddogfen yn berthnasol iddynt, ac eithrio i'r graddau a nodir yn yr Amodau hynny, rhaid i CBAC hefyd gydymffurfio â:

- Ein Hamodau Cydnabod Safonol sy'n berthnasol i bob corff dyfarnu a chymhwyster;
- Amodau Lefel Cymhwyster;
- Meini Prawf Cymeradwyo; ac
- Unrhyw Ddogfennau Rheoleiddio perthnasol eraill.

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud ag Amodau GQAAFW4 (Cam 1 - Adolygiad Canolfan o Radd a Bennir gan Ganolfan) a GQAAFW5 (Cam 2 – Apêl i CBAC), yn ogystal â'n Gofynion mewn perthynas â phennu canlyniadau at ddibenion Amod GQAAFW 3.3(a)(i).

Canllawiau Cymwysterau Cymru

Cyflwyniad

Rydym yn cyhoeddi canllawiau i helpu cyrff dyfarnu i ddeall sut i gydymffurfio â'u Hamodau Cydnabod. Rhaid i gyrff dyfarnu sy'n datblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau rheoleiddiedig ystyried y canllawiau a gyhoeddwn.

Nid cyfres arall o reolau yw canllawiau, ac nid y dulliau a nodir ynddynt yw'r unig ffordd i gydymffurfio. Fodd bynnag, os yw corff dyfarnu yn dewis cymryd agwedd wahanol, mae angen iddo allu egluro pam ei fod wedi gwneud hynny.

Fel yr unig gorff dyfarnu sy'n dyfarnu'r cymwysterau yr effeithir arnynt yn ein Fframwaith Dyfarnu Amgen Cymwysterau Cyffredinol ar gyfer Cymru, mae'r canllawiau hyn yn debygol o fod o'r diddordeb mwyaf i CBAC. Mae canllawiau manwl ar y gweithdrefnau y mae'n rhaid i Ganolfannau eu dilyn yn cael eu darparu ar wahân gan CBAC.

Er bod hynny'n wir, efallai y bydd y canllawiau hyn o ddiddordeb hefyd i Ganolfannau sy'n gyfrifol am reoli Adolygiadau Canolfannau a chyflwyno apeliadau yr haf hwn, a Dysgwyr a allai ei gwneud yn ofynnol i Ganolfannau gynnal adolygiadau o'r fath a chyflwyno apeliadau. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud ag Amodau GQAAFW4 a GQAAFW5, yn ogystal â'n Gofynion mewn perthynas â phennu canlyniadau at ddibenion Amod GQAAFW 3.3(a)(i).

Ni fwriedir i'r canllawiau hyn fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r prosesau Adolygiad Canolfan ac apelio a sefydlwyd o dan Amodau GQAAFW4 a GQAAFW5 ac ni ddylid eu darllen yn y modd hynny. Yn hytrach, mae'r canllawiau'n ymwneud â'r agweddau hynny ar y broses lle rydym o'r farn y gallai canllawiau fod o'r budd mwyaf, gan gynnwys tynnu sylw at agweddau ar y broses sy'n wahanol eleni i flynyddoedd eraill.

Mae dull amgen eleni o ddyfarnu cymwysterau trwy Raddau a Bennir gan Ganolfannau wedi gofyn am ddull newydd o adolygu ac apelio fel bod yna broses deg ac ystyrlon i Ddysgwyr. Mae'r dull o bennu graddau yn rhoi Canolfannau wrth wraidd cyflwyno system a fydd yn galluogi Dysgwyr i symud ymlaen. Mae gan Ganolfannau rôl allweddol i'w chwarae hefyd o ran sicrhau bod pob Dysgwr yn gallu manteisio ar brosesau adolygu ac apelio teg eleni.

Mae tri cham yn y broses apelio eleni.

Mae Cam 1 yn galluogi Dysgwr i ofyn am Adolygiad gan y Ganolfan o'r Radd dros dro a Bennwyd gan y Ganolfan ar y sail bod camgymeriad wedi'i wneud wrth bennu ei radd.

Mae Cam 2 yn caniatáu gwneud apêl i CBAC ar y sail bod y dyfarniad y mae'r ganolfan wedi'i wneud yn afresymol a/neu fod camgymeriad gweithdrefnol wedi'i wneud. Gwneir apêl Cam 2 gan Ganolfan ar ran Dysgwr.

Mae Cam 3 yn caniatáu gwneud cais i Cymwysterau Cymru am Wasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (EPRS) er mwyn adolygu a yw CBAC wedi dilyn ein gofynion rheoliadol gofynnol a'u gweithdrefnau eu hunain wrth ddelio â'r apêl

Ni fydd yr EPRS yn:

- adolygu a yw Canolfan wedi cydymffurfio â'i pholisïau neu ei gweithdrefnau ei hun neu'r rhai a bennwyd gan CBAC er mwyn iddi ei dilyn - bydd CBAC yn cynnal y rhan honno o'r broses apelio yng Ngham 2.
- yn adolygu cywirdeb y penderfyniad graddio ac ni fydd yn newid unrhyw raddau.

Os byddwn yn nodi bod CBAC wedi methu â chydymffurfio mewn rhyw ffordd byddwn yn:

- ei gwneud yn ofynnol i CBAC ystyried ein canfyddiadau, ac
- ystyried a yw'r methiant hwnnw'n effeithio ar gywirdeb y radd.

Yn ymarferol, bydd yr EPRS ond yn nodi methiannau gweithdrefnol ar ran CBAC ac mae'n annhebygol o arwain at newidiadau mewn penderfyniadau ar farn academaidd o ganlyniad.

Hawl y Dysgwr i adolygiad ac apêl

1. Mae'r GQAAFW yn ei gwneud yn ofynnol, pan fydd y Dysgwr wedi nodi camgymeriad, a pan ofynnir am hynny gan Ddysgwr (gan gynnwys Ymgeisydd Preifat), rhaid i Ganolfan gynnal adolygiad mewn perthynas ag unrhyw Radd dros dro a Bennir gan Ganolfan ar gyfer Cymhwyster GQ a benderfynodd ar gyfer y Dysgwr hwnnw. Yn dilyn canlyniad yr Adolygiad Canolfan hwn, lle mae Dysgwr yn parhau i bryderu bod gwall mewn perthynas â'u Gradd a Bennir gan Ganolfan, mae'r GQAAFW hefyd yn mynnu bod yn rhaid i'r Ganolfan gyflwyno apêl ar ran y Dysgwr i CBAC, lle gofynnir am hynny. Ni ddylid cyflwyno apêl ar ran Dysgwr heb gydsyniad y Dysgwr hwnnw.

2. Rhaid i CBAC gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gan Ganolfannau'r trefniadau angenrheidiol ar waith ar gyfer Adolygiadau Canolfan ac apeliadau. Mae hyn yn golygu, yn ogystal â darparu cyngor ac arweiniad i Ganolfannau, y dylai CBAC ymateb yn brydlon pe bai gwybodaeth yn dod i'r amlwg sy'n dangos nad oes gan unrhyw Ganolfan y trefniadau angenrheidiol ar waith. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ymateb yn brydlon i

gwynion gan Ddysgwyr bod Canolfan wedi gwrthod cynnal adolygiad neu gyflwyno apêl.

3. Byddwn yn disgwyl i CBAC wneud yr hyn a all i geisio sicrhau nad yw Dysgwr dan anfantais pan fydd yn methu unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno apêl i CBAC oherwydd bod Canolfan yn methu, ar gam, â chynnal adolygiad neu gyflwyno apêl ar gyfer y Dysgwr hwnnw neu nad yw'n gwneud hynny yn brydlon.

Sail dros Adolygiad Canolfan (Cam 1)

4. Os yw Dysgwr yn nodi bod camgymeriad wedi'i wneud wrth bennu'r radd, gall ofyn i'r Ganolfan adolygu'r penderfyniad. Rhaid i Ddysgwyr nodi'n glir lle maent yn credu bod camgymeriad wedi'i wneud wrth gyflwyno'r adolygiad.

5. Mae graddau'n cael eu pennu gan Ganolfannau gan ddefnyddio ystod eang o dystiolaeth a fydd yn amrywio o Ganolfan i Ganolfan. Mae'r Radd a Bennir gan Ganolfan yn farn sy'n seiliedig ar gydbwysedd o dystiolaeth sy'n dangos lefel cyrhaeddiad y Dysgwr.

6. Canolfannau fydd yn y sefyllfa orau i adolygu'r dystiolaeth a llunio barn ynghylch a yw'r radd yn gywir. Er enghraifft, ar ôl adolygu'r penderfyniad gwreiddiol gallai'r Ganolfan ddod i'r casgliad y dylai Dysgwr a enillodd radd D ar gyfer ei TGAU mewn Hanes fod wedi derbyn gradd C, ac y byddai hynny'n nodi bod camgymeriad wedi'i wneud wrth bennu'r radd wreiddiol.

7. Dyma rai enghreifftiau o'r hyn a allai fod yn gamgymeriad wrth bennu Gradd Dros Dro a Bennir gan Ganolfan:

    - Cofnodwyd gradd y Dysgwr yn anghywir;
    - Ni chymerwyd Addasiadau Rhesymol nac Ystyriaethau Arbennig i ystyriaeth pan ddylent fod wedi'u hystyried;
    - Ni ystyriwyd tystiolaeth asesu a oedd yn rhan o'r cynllun asesu;
    - Nid yw'r radd yn cael ei chefnogi gan y wybodaeth yn y cofnod gwneud penderfyniadau.

8. Efallai y bydd y Ganolfan yn nodi gwall gweithdrefnol yn dilyn cais Dysgwr am Adolygiad Canolfan neu gan CBAC lle mae sail apêl y Dysgwr yn codi materion gweithdrefnol. Yn ymarferol, Canolfannau fydd fel arfer yn y sefyllfa orau i nodi a ydynt wedi methu â dilyn eu gweithdrefnau yn gywir ac yn gyson. Mae hyn yn golygu bod mwyafrif y gwallau o'r fath yn debygol o gael eu canfod yn ystod yr Adolygiad Canolfan.

9. Gall Canolfan nodi fel rhan o Adolygiad Canolfan ei bod wedi gwneud camgymeriad gweinyddol mewn cysylltiad â Gradd a Bennir gan Ganolfan.

Mae p'un a ddigwyddodd gwall gweinyddol - er enghraifft trawsosod Gradd a Bennir gan Ganolfan ar gyfer Dysgwyr ag enwau tebyg - yn fater o ffaith, y gall y Ganolfan benderfynu arno ar y wybodaeth sydd ar gael iddi. Rhagwelir y bydd y mwyafrif o wallau gweinyddol wedi cael eu cywiro yn ystod Adolygiad Canolfan.

Sail ar gyfer Apêl (Cam 2)

10. Gellir cyflwyno apeliadau Cam 2 i CBAC ar sail dyfarniad academaidd afresymol ac ar sail weithdrefnol. Fodd bynnag, ni ellir cyflwyno apêl Cam 2 ar y sail uchod oni bai bod Adolygiad Canolfan Cam 1 wedi'i gwblhau.

11. Gellir cyflwyno apêl Cam 2 heb iddo fynd yn gyntaf trwy'r broses Adolygu Canolfan Cam 1 cyn diwrnod y canlyniadau os yw CBAC wedi gwneud camgymeriad gweinyddol wrth brosesu'r radd, er enghraifft, cyflwynodd y Ganolfan radd C dros dro, a chyhoeddwyd gradd D gan CBAC.

12. Rhaid i Ganolfannau rhoi gwybod i ddysgwyr am eu hawl i ofyn am apêl Cam 2 ar ôl cwblhau'r Adolygiad Canolfan a rhaid iddynt gyflwyno'r apêl ar ran y dysgwr os gofynnir amdano. Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, ni fydd gan Ganolfan ddisgresiwn ynghylch a ddylid cyflwyno apêl i CBAC.

13. Nid ymchwiliad gan CBAC yw apêl ond gwerthusiad o ganlyniad y Dysgwr yng ngoleuni sail yr apêl.

14. Mater i'r Dysgwr yw cyflwyno sail yr apêl ond wrth wneud hynny ni ddylai fod angen unrhyw sgil benodol. Efallai mai'r seiliau apelio mwyaf effeithiol yw'r rhai sy'n egluro'n syml ac yn glir yr hyn y mae'r Dysgwr yn ystyried a aeth o'i le a sut y credant fod hyn wedi gwneud gwahaniaeth i'r Radd a Bennir gan Ganolfan a ddarparwyd gan y Ganolfan. Bydd proses apelio effeithiol yn arwain y Dysgwr gam wrth gam i egluro, fel y bo'n briodol:

    (a) yr hyn y maent yn ystyried nad oedd y Ganolfan wedi ei wneud, pam roedd hynny'n fethiant i ddilyn gweithdrefnau'r Ganolfan, a pham roedd y methiant hwnnw'n bwysig i bennu'r Radd a Bennir gan Ganolfan.

    (b) ym mha ffordd y maent yn ystyried yr arferwyd barn academaidd yn afresymol wrth bennu Gradd a Bennir gan Ganolfan o'r dystiolaeth a ddewiswyd.

    (c) ym mha ffordd y maent yn ystyried bod y Ganolfan neu CBAC wedi gwneud camgymeriad gweinyddol, a pha wahaniaeth a wnaeth i benderfynu ar y Radd a Bennir gan Ganolfan.

15. Nid oes angen i esboniad pam mae Dysgwr o'r farn bod penderfyniad yn afresymol fod yn fanwl nac yn gymhleth. Mae angen i CBAC wybod pam mae'r Dysgwr o'r farn bod y Radd a Bennir gan Ganolfan wedi gwyro o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn afresymol oherwydd, er enghraifft, nid oedd yn adlewyrchu'r safon a ddangosir gan y dystiolaeth honno.

16. Ni fydd fel rheol yn cynorthwyo apêl Dysgwr i egluro a yw'n ystyried gwall gweithdrefnol, neu arfer afresymol o farn academaidd, yn fwriadol neu'n ddamweiniol, nac i honni unrhyw gymhelliad penodol. Nid oes angen i CBAC ystyried cwestiynau o'r fath i benderfynu ar yr apêl. Yn hytrach, y cwestiwn yw a ddilynodd y Ganolfan ei gweithdrefn yn iawn ac yn gyson ai peidio, neu a yw'r gwaith o benderfynu ar Radd a Bennir gan Ganolfan yn cynrychioli ymarfer afresymol o farn academaidd.

17. Pan fo apêl Dysgwr yn cynnwys seiliau gweithdrefnol, rhaid i CBAC werthuso a wnaeth y Ganolfan wyro oddi wrth ei gweithdrefnau ei hun yn y ffordd/ffyrdd a nodwyd gan y Dysgwr yn sail yr apêl. Nid yw penderfynu ar apêl o'r fath yn gofyn am werthusiad cynhwysfawr neu gam wrth gam o rinweddau'r weithdrefn a osodwyd gan y Ganolfan. Bydd CBAC wedi gwirio priodoldeb gweithdrefn y Ganolfan fel rhan o'i waith sicrwydd ansawdd allanol. Y cwestiwn ar apêl yw sut y cymhwyswyd y weithdrefn, hynny yw, a ddilynodd y Ganolfan y weithdrefn honno yn gywir ac yn gyson wrth gyrraedd Gradd a Bennir gan Ganolfan i'r Dysgwr.

18. Gall Dysgwr apelio ar y sail bod y Ganolfan neu CBAC wedi cyflwyno gwall gweinyddol, er enghraifft, wrth gyhoeddi canlyniad diwygiedig yn dilyn yr Adolygiad Canolfan neu drwy drawsosod Graddau a Bennir gan Ganolfannau ar gyfer Dysgwyr ag enwau tebyg wrth gyhoeddi canlyniadau. Pan fydd gwall o'r fath yn digwydd, bydd Canolfannau mewn sefyllfa dda i gynorthwyo CBAC i ystyried apeliadau o'r fath trwy gynorthwyo'r Dysgwr i nodi ac esbonio'r gwall sy'n sail eu hapêl.

Dyfarniad Academaidd Afresymol (Cam 2)

19. Rhaid bod gan CBAC broses apelio ar waith sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer apelio i CBAC ar y sail bod canlyniad yn adlewyrchu dyfarniad academaidd afresymol gan y Ganolfan.

20. Rhaid cadarnhau'r apêl os yw'r person sy'n pennu'r apêl o'r farn bod y Radd a Bennir gan Ganolfan a ddarperir gan y Ganolfan yn cynrychioli dyfarniad academaidd afresymol.

21. Nodwn isod ein canllawiau ar ddyfarniad academaidd afresymol mewn perthynas â chanlyniadau sy'n deillio o Raddau a Bennir gan Ganolfannau.

22. Lle mae'n rhaid arfer barn academaidd, yn aml bydd ystod o wahanol benderfyniadau y gellid yn rhesymol eu gwneud o dan yr amgylchiadau. Dim ond pan fydd y penderfyniad gwreiddiol yn cynrychioli dyfarniad academaidd afresymol y bydd canlyniad yn anghywir.

23. Y man cychwyn ar gyfer ystyried a yw Gradd a Bennir gan Ganolfan yn cynrychioli dyfarniad academaidd afresymol yw'r Radd a Bennir gan Ganolfan ei hun bob amser, ac nid unrhyw Radd a Bennir gan Ganolfan arall y mae'r Dysgwr yn credu y gellid neu y dylid fod wedi'i phennu.

24. Mae Gradd a Bennir gan Ganolfan yn cynrychioli dyfarniad academaidd o berfformiad y Dysgwr ac mae'n gyfannol ei natur. Wrth ystyried dadl bod dyfarniad academaidd yn afresymol, bydd yn briodol i'r sawl sy'n gwneud penderfyniad gymryd yr un agwedd gyfannol. Y cwestiwn yw a yw'r penderfyniad academaidd gwreiddiol yn un y gellid yn rhesymol fod wedi'i wneud, nid a ellid bod wedi cyfiawnhau gwahanol benderfyniadau hefyd.

25. Bydd CBAC yn ystyried cofnod gwneud penderfyniadau'r Dysgwr a thystiolaeth gysylltiedig ac yn penderfynu a yw'r radd yn rhesymol. Dim ond os yw ymhell y tu allan i ffiniau barn academaidd resymol ac na all y dystiolaeth gefnogi'r radd a ddyfarnwyd yn rhesymol y caiff Gradd a Bennir gan Ganolfan ei hystyried yn afresymol. Er enghraifft, ni fydd penderfyniad i ddyfarnu gradd B yn afresymol os yw'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ar gyfer yr apêl o'r farn y byddai'r dystiolaeth yn cefnogi naill ai gradd A neu radd B. Byddai'r ddau yn rhesymol ac felly ni fyddai'r naill na'r llall yn afresymol. Byddai'r dyfarniad yn cael ei ystyried yn afresymol pe bai'n golygu na allai unrhyw Ganolfan arall yn yr un sefyllfa, a gweithredu'n rhesymol, fod wedi dod i'r un dyfarniad.

26. Ni fydd arfer barn academaidd yn afresymol dim ond oherwydd bod Dysgwr o'r farn y dylid bod wedi dewis tystiolaeth wahanol. Mae holl Ganolfannau wedi nodi, fel rhan o'u polisïau asesu'r Ganolfan, y dystiolaeth a fyddai'n cael ei defnyddio wrth bennu'r Radd a Bennir gan Ganolfan. Ni fydd arfer barn academaidd yn afresymol dim ond oherwydd bod Dysgwr o'r farn y gallai'r dystiolaeth a ddewiswyd fod wedi cefnogi canlyniad uwch. Yn aml bydd ystod o wahanol benderfyniadau y gellid yn rhesymol eu gwneud mewn perthynas â phwysiad y dystiolaeth honno, wrth bennu Gradd a Bennir gan Ganolfan.

27. Mae apêl Cam 2 ar sail dyfarniad academaidd afresymol yn rhwyd ddiogelwch bwysig i sicrhau tegwch i Ddysgwyr sy'n ystyried bod camgymeriad barn

sylweddol wedi bod ym mhenderfyniad graddio'r Ganolfan neu fod rhagfarn neu wahaniaethu wedi effeithio ar benderfyniad y Ganolfan.

Cywiro Canlyniadau

28. O dan Amod GQAAFW3.4(b), rhaid i CBAC beidio â chyhoeddi canlyniad lle nad yw unrhyw faterion a nodwyd fel rhan o'i sicrwydd ansawdd wedi'u datrys er boddhad CBAC.

29. Mae Amod GQAAFW5.8 yn mynnu bod yn rhaid i CBAC ystyried ein *Canllawiau ar Wneud Newidiadau i Ganlyniadau Anghywir*, a gyhoeddir yn Atodiad 1 y ddogfen hon pryd bynnag y mae'n nodi canlyniad anghywir trwy'r broses apelio. Yn ymarferol, gallai hyn godi:

    (a) yn dilyn apêl, pan fo CBAC yn canfod bod y canlyniad i'r Dysgwr a ofynnodd am yr apêl yn anghywir;

    (b) yn dilyn apêl, pan fydd CBAC yn darganfod bod canlyniad a roddwyd i Ddysgwr gwahanol yn anghywir.

30. Ni fydd pob gwall gweithdrefnol a gweinyddol yn effeithio ar Radd a Bennir gan Ganolfan y Dysgwr. Mewn rhai achosion, bydd yn amlwg pe na bai'r gwall wedi digwydd, byddai Gradd a Bennir gan Ganolfan wahanol wedi'i phennu, ond mewn achosion eraill bydd yn amlwg i'r person sy'n cynnal yr adolygiad neu'r apêl na chafodd y mater unrhyw effaith ar y Radd a Bennir gan Ganolfan.

31. Pan fydd CBAC yn penderfynu bod gwall gweithdrefnol neu weinyddol wedi digwydd, ond nad oedd y gwall hwnnw wedi effeithio ar y Radd a Bennir gan Ganolfan, dylai wneud y ffaith honno'n glir pan fydd yn adrodd ar ganlyniad yr apêl.

32. Pan fydd CBAC yn penderfynu, yn dilyn apêl lle mae'n canfod y dylid newid y canlyniad i'r Dysgwr a ofynnodd am yr apêl, i ofyn am farn y Ganolfan ynghylch y canlyniad diwygiedig priodol, rhaid iddo roi sylw i'n *Canllawiau ar Wneud Newidiadau i Ganlyniadau Anghywir*, pan fydd yn penderfynu a ddylai'r canlyniad diwygiedig fod yn unol â barn y Ganolfan.

33. Pryd bynnag y nodir canlyniad anghywir trwy'r broses apelio a sefydlwyd o dan Amod GQAAFW5, gall y canlyniad hwnnw godi, gostwng neu aros yr un fath. Mae ein *Canllawiau ar Wneud Newidiadau i Ganlyniadau Anghywir* yn esbonio'r ffactorau y dylai CBAC eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cywiro'r canlyniad.

34. Mae'r *Canllawiau ar Wneud Newidiadau i Ganlyniadau Anghywir* yn nodi mai'r sefyllfa ddiofyn yw y dylai CBAC gywiro canlyniad anghywir oni bai na fyddai'n rhesymol gwneud hynny yng ngoleuni unrhyw effaith negyddol y gallai'r cywiriad ei chael. Yna mae'r Canllawiau'n darparu cyfres o ffactorau i gefnogi dadansoddiad CBAC yn hynny o beth. Pan fydd canlyniad apêl yn dangos bod canlyniad i'r Dysgwr a ofynnodd am yr apêl yn rhy isel, rydym yn disgwyl y bydd y ffactorau a nodwyd yn y *Canllawiau ar Wneud Newidiadau i Ganlyniadau Anghywir* fel arfer yn nodi y dylid cywiro'r canlyniad.

Atodiad 1 - Canllawiau ar Wneud Newidiadau i Ganlyniadau Anghywir

Disgwyliwn i CBAC gyhoeddi canlyniadau cywir i Ddysgwyr. Ond lle mae CBAC yn darganfod, er gwaethaf ei reolaethau, ei fod wedi cyhoeddi canlyniad anghywir, rhaid iddo roi sylw i'r canllawiau hyn wrth benderfynu beth i'w wneud.

Gwnaethom nodi ein canllaw ar wneud newidiadau i ganlyniadau anghywir o dan y Fframwaith Dyfarnu Amgen Cymwysterau Cyffredinol ar gyfer Cymru (GQAAFW) isod.

Canlyniad anghywir yw un nad yw'n adlewyrchu perfformiad Dysgwr yn gywir yn ei asesiad/hasesiad. Gallai fod yn uwch neu'n is na lefel y cyrhaeddiad a ddangosodd y Dysgwr. Efallai y bydd CBAC yn darganfod ei fod wedi cyhoeddi canlyniad anghywir mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys:

- trwy gymhwyso ei brosesau sicrhau ansawdd ei hun;
- trwy ei ymchwiliadau i gamymddwyn neu gamweinyddu; neu
- lle mae'r broses apelio yn datgelu mater sy'n berthnasol i asesiadau Dysgwyr eraill.

Pan fydd CBAC yn darganfod gwall trwy'r broses apelio, (ac ni waeth a yw'n uwch neu'n is na lefel y cyrhaeddiad a ddangosir gan y Dysgwr), rhaid i CBAC benderfynu pa gamau i'w cymryd, ac a ddylid cywiro'r canlyniad ai peidio.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi nifer o Amodau sy'n gosod gofynion ar CBAC sy'n berthnasol i'r mater hwn. Mae'n egluro beth ddylai CBAC ei wneud pan fydd yn darganfod ei fod wedi cyhoeddi canlyniad anghywir, sut y dylai CBAC benderfynu pa gamau i'w cymryd a rhai o'r ffactorau y dylai eu hystyried a beth ddylai ei wneud ar ôl penderfynu pa gamau i'w cymryd. Bydd pwysigrwydd y ffactorau hyn yn amrywio rhwng achosion, ond dylai CBAC fabwysiadu dull cyson i benderfynu pa rai sy'n berthnasol a sut i'w cydbwyso.

Beth ddylai CBAC ei wneud pan fydd yn darganfod ei fod wedi cyhoeddi canlyniad anghywir?

Pan fydd CBAC yn darganfod ei fod wedi cyhoeddi canlyniad anghywir, rydym yn disgwyl iddo:

- deall beth sydd wedi digwydd. Dylai sicrhau ei fod yn casglu gwybodaeth ddigonol i seilio unrhyw benderfyniad arno ynglŷn â beth i'w wneud nesaf ac a ddylid cywiro'r canlyniad;

- penderfynu a yw cyhoeddi'r canlyniad anghywir wedi achosi unrhyw Effaith Niweidiol neu a oes potensial i unrhyw Effaith Niweidiol ddigwydd;
- hysbysu Cymwysterau Cymru, lle mae unrhyw Effaith Niweidiol wedi digwydd neu lle gallai ddigwydd (yn unol ag Amod B3.1);
- penderfynu pa gamau i'w cymryd, gan gynnwys a ddylid cywiro'r canlyniad ai peidio ac a ddylid cymryd unrhyw gamau eraill;
- cadw cofnod o'r penderfyniad y mae'n ei wneud mewn perthynas â: p'un a yw unrhyw Effaith Niweidiol wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd, p'un ai i gywiro'r canlyniad ai peidio ac ar unrhyw gamau eraill y mae'n eu cymryd i atal, lliniaru neu gywiro unrhyw Effaith Niweidiol. Dylai allu egluro, fesul achos, pa gamau y mae wedi'u cymryd a pham.

Beth ddylai CBAC ei ystyried wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd?

Pan fydd CBAC yn darganfod ei fod wedi cyhoeddi canlyniad anghywir, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i atal unrhyw Effaith Niweidiol a allai gael ei achosi neu, lle nad yw hyn yn bosibl, i liniaru a chywiro unrhyw Effaith Niweidiol. Mae Effaith Niweidiol yn fwyaf tebygol o gael ei achosi pan fydd cyhoeddi'r canlyniad anghywir:

- yn niweidio'r Dysgwr sydd wedi cael y canlyniad neu'n niweidio Dysgwyr eraill; neu
- yn effeithio'n andwyol ar hyder y cyhoedd mewn cymwysterau rheoleiddiedig.

Mewn rhai achosion, gallai cyhoeddi canlyniad anghywir achosi mwy nag un Effaith Niweidiol a gallai'r rhain ddigwydd ar wahanol adegau.

Pan fydd cyhoeddi'r canlyniad anghywir wedi cael neu y gallai gael Effaith Niweidiol, y sefyllfa ddiofyn yw y dylai CBAC gywiro'r canlyniad. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd hyn naill ai'n atal yr Effaith Niweidiol rhag digwydd neu fel arall yn ei liniaru neu ei gywiro.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai cywiro'r canlyniad gael effaith negyddol fel na fyddai, wrth gydbwyso'r effaith hon â'r Effaith/Effeithiau Niweidiol dan sylw, yn gam rhesymol i CBAC gywiro'r canlyniad.

Hyd yn oed pan nad yw CBAC yn ystyried bod cyhoeddi'r canlyniad anghywir wedi cael neu y gallai gael Effaith Niweidiol, bydd wedi torri Amod. Bydd cywiro'r canlyniad yn helpu i unioni'r toriad hwnnw. Unwaith eto, rydym yn cydnabod y gallai effaith negyddol cywiro'r canlyniad olygu na fyddai hyn yn gam rhesymol i CBAC ei gymryd.

Disgwyliwn i CBAC ystyried yr holl ffactorau perthnasol er mwyn:

- nodi unrhyw Effeithiau Niweidiol a achosir (neu a allai gael eu hachosi) trwy gyhoeddi'r canlyniad anghywir; a
- penderfynu pa gamau y byddai'n rhesymol eu cymryd, gan gydbwyso unrhyw Effaith Niweidiol yn erbyn unrhyw effaith negyddol a allai gael ei hachosi trwy gywiro'r canlyniad.

Mae'r rhestr isod yn nodi ffactorau yr ydym yn disgwyl i CBAC eu hystyried wrth benderfynu ar gamau gweithredu rhesymol (ochr yn ochr ag unrhyw ffactorau perthnasol eraill).

- Effaith ar y Dysgwr sydd wedi cael canlyniad anghywir - dylai CBAC ystyried a allai caniatáu i ganlyniad anghywir sefyll neu gywiro'r canlyniad niweidio'r Dysgwr. Er enghraifft, gellir achosi niwed os cywirir y canlyniad lle mae'r canlyniad gwreiddiol eisoes wedi'i ddefnyddio i wneud penderfyniadau, megis a ddylid ail-gymryd cymhwyster, cofrestru mewn addysg bellach neu uwch, neu fynd i gyflogaeth. Ond hefyd, mewn rhai sefyllfaoedd, gall caniatáu i Ddysgwr ddibynnu ar ganlyniad nad yw ef/hi wedi'i gyflawni mewn gwirionedd niweidio'r Dysgwr hwnnw;
- Effaith ar Ddysgwyr eraill - dylai CBAC ystyried a allai caniatáu i ganlyniad anghywir sefyll niweidio Dysgwyr eraill. Er enghraifft, gallai Dysgwr A golli allan ar gyfle dilyniant i Ddysgwr B oherwydd bod Dysgwr B wedi cael yn anghywir ganlyniad uwch nag yr oedd ei berfformiad yn haeddu;
- Hyder y cyhoedd - dylai CBAC ystyried yr effaith ar hyder y cyhoedd mewn cymwysterau rheoleiddiedig wrth gyhoeddi canlyniad anghywir a'r camau y mae'n eu cymryd mewn ymateb;
- Nifer y Dysgwyr yr effeithir arnynt - Mae'r effeithiau ar Ddysgwyr eraill, ar safonau ac ar hyder y cyhoedd yn debygol o fod yn fwy os effeithir ar lawer o Ddysgwyr;
- Trydydd partïon yn dibynnu ar y canlyniad anghywir - Pan fo trydydd partïon wedi dibynnu ar y canlyniad anghywir, neu'n debygol o ddibynnu arno, dylai CBAC ystyried a yw hynny'n cynyddu'r posibilrwydd o Effaith Niweidiol.
- Amseru - Yr amser ers i'r canlyniad gael ei gyhoeddi ac unrhyw arwydd a roddwyd gan CBAC y gallai'r canlyniad fod yn derfynol ai peidio.
- Camymddwyn - P'un a gyfrannodd gweithredoedd y Dysgwr ei hun (gan gynnwys camymddwyn) at y canlyniad anghywir yn cael ei gyhoeddi.

Bydd y graddau y mae pob ffactor yn berthnasol, ac a oes unrhyw rai eraill y dylid eu hystyried, yn amrywio. Gallai hyn ddibynnu, er enghraifft, ar bwrpas y cymhwyster a

sut y caiff ei ddefnyddio gan y Dysgwr neu eraill sy'n defnyddio cymwysterau. Efallai na fydd ystyried yr holl ffactorau i gyd yn pwyntio tuag at un weithred.

Dylai CBAC benderfynu pa ffactorau sy'n berthnasol a rhoi pwys priodol ar y rhain ym mhob achos wrth benderfynu ar ei gamau gweithredu.

Beth ddylai CBAC ei wneud ar ôl penderfynu pa gamau i'w cymryd?

Ym mhob achos, ar ôl penderfynu pa gamau i'w cymryd, dylai CBAC gymryd pob cam rhesymol i gyfleu unrhyw newid mewn canlyniad i unrhyw Ddysgwyr yr effeithir arnynt a, lle bo hynny'n briodol, ailgyhoeddi canlyniadau a/neu dystysgrifau.

Mae Amod I4.2 (a) yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC gymryd pob cam rhesymol i gyhoeddi tystysgrif ac unrhyw dystysgrif yn lle'r gwreiddiol. Pan fydd CBAC wedi penderfynu cywiro'r canlyniad, dylai sicrhau ei fod yn gwneud hyn.

Dylai CBAC ystyried unrhyw gamau pellach y mae angen iddo eu cymryd. Yn unol ag Amod B3.5, dylai CBAC hysbysu Cymwysterau Cymru am unrhyw gamau y mae wedi'u cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i atal Effaith Niweidiol, neu i gywiro neu liniaru unrhyw Effaith Niweidiol sy'n digwydd.

Yn unol ag Amod A6, dylai CBAC ystyried a ddylid diweddaru ei gynllun wrth gefn ai peidio.